Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 06-07-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), Wendy Williams, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, John Lloyd Williams, Arthur Williams, Geraint Owen, Austin Roberts, Gwenan Roberts, Gwyn Jones a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Dim |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **ARWYDDION MARCHNOGAETH YN Y PENTREF:**

   Ymunodd Glynwen Davies a'r cyfarfod i siarad am gyflymder traffig yn mynd trwy'r pentref pan yn marchnogaeth. Mae rhaid defnyddio'r ffordd i gyrraedd y llwybr ceffylau. Glynwen yn poeni am ddamwain yn digwydd i gar, geffyl neu person. Gofynnodd Glynwen os fuasai'n bosib i osod arwyddion yn y pentref o Glan Aber ymlaen i Brymbo. 'British Horse Society' yn cynnig cyflenwi arwyddion am ddim, yn un iaith Saesneg ond angen caniatad y cyngor.

   Y 'British Horse Society' yn fodlon cysylltu gyda CBSC i drafod. Glynwen i gydweithio gyda Cyng Ceri ar y mater.

4. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

5. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (01/16/21).

   Cynigwyd cofnodion 01/06/21 yn gywir gan Cyng John Lloyd ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

   **Newid i'r cofnodion:**
   - Cae Chwarae - Emrys Plas ddim yn gosod y slab concrid – angen tendrau yn gyntaf.
   - Cais cynllunio Cyfeirnod: 0/48499 – tynnu ' Holl Gynghorwyr yn cytuno'.

6. **MATERION YN CODI**

- **Cae Chwarae:**

  Contractwr yn gobeithio dechrau ar y gwaith ddiwedd mis Gorffennaf. Dau ddyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer y slab concrit:

  Dyfynbris 1 - £1056.00
  Dyfynbris 2 - £720.00

  Cynigiodd Cyng Austin dderbyn dyfynbris 2, eiliodd Cyng Wendy, cytunodd pob cynghorydd. Y Clerc i roi gwybod i'r ddau gontractwr.

- **Toiledau'r Pentref:**

  Cyng Ceri wedi siarad â Kerry Owen, CBSC. Mae CBSC yn hapus i ad-dalu Sue Hayward am ei gwaith. Cyng Ceri i drafod eto gyda Kerry i drefnu cyfarfod o'r safle. Kerry Owen yn cwblhau asesiad risg.

  Cynigiodd Cyng John Emlyn gadw'r toiledau ar agor, eiliodd Cyng Arthur, cytunodd pob cynghorydd.

  Sefydlwyd Is-bwyllgor i drafod ymhellach – Cynghorwyr John Emlyn, John Williams a Ceri.

- **Mynwent y Cyngor:**

  Gofynnodd Cyng Ceri a ellid gosod arwyddion dwyieithog yn yr ardal flodau gwyllt yn y fynwent fel y byddai ymwelwyr yn gwybod ei fod yn ardal ddynodedig. Cynigiodd Cyng Wendy y syniad hwn, eiliodd Cyng Geraint, cytunodd pob Cynghorydd.

  Trafodaeth ynglŷn â'r toriadau glaswellt a gwagio'r trelar.

  Trafodaeth ynghylch baw cŵn yn y ddau fynwent a'r angen am arwyddion. Pob ci i fod ar dennyn bob amser.

- **Sgip Cymunedol:**

  Esboniodd y Clerc nad yw CBSC ar hyn o bryd yn rhedeg gwasanaeth sgip ddydd Sadwrn. Gofynnodd y Clerc a oedd y Cynghorwyr yn hapus i gael sgip canol yr wythnos. Cytunodd y cynghorwyr. Y Clerc i drefnu sgip cyn gynted â phosib.

- **Hyfforddiant Diffibriliwr ar gyfer plant oed uwchradd:**

  Bydd Tomos, Achub Calon y Dyffryn yn dod i wneud hyfforddiant difib i ddisgyblion oedran uwchradd pan fydd Covid yn caniatáu yn ystod yr Hydref.

- **Awdit 20/21*:***

  Mae'r Clerc bron â gorffen y cyfrifon. Bydd angen cyfarfod i dderbyn y cyfrifon.

7. **CYNLLUNIO**

- **Cyfeirnod: 0/48535**
  Ymgeisydd: E & G Wynne
  Cynllun: Creu iard wedi'i gorchuddio dros bwll silwair ac iard i gasglu gwartheg gan gynnwys sianel slyri newydd i'r lagwn presennol
  Safle: Wern Fawr, Ffordd Pennant, Eglwysbach LL28 5UN

  Dim gwrthwynebiad.

8. **ADRODDIAD ARIANNOL**

• **Cau cyfrifon:**

Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn hysbysiad gan HSBC eu bod yn cau cyfrifon banc y cyngor oherwydd adolygiad diogelu a oedd heb ei orffen. Roedd y Clerc wedi siarad â'r banc i gadarnhau. Cafwyd trafodaeth. Cynigiodd Cyng Gwyn agor cyfrifon newydd gyda banc arall. Eilwyd y cynnig gan Cyng Geraint. Cytunodd pob Cynghorydd.

Cynigiodd Cyng Geraint mai dim ond tri enw Cynghorydd oedd eu hangen ar y cyfrif - sef y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a’r Cyng John Emlyn. Eiliodd y Cyng Arthur ei gynnig. Cytunodd pob Cynghorydd.

Cyfredol - £7,950.87
Angladdau - £1,191.70
Cadw - £2,078.26

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- John Emlyn Jones (Gwrth Feirws McAfee) - £39.99
- Carwyn Evans - Concrete slab Cae Chwarae - £720.00
- Cylchgrawn y Pentref - £50.00

**Angladdau:**
- Arwel Williams (Torri glaswellt y Fynwent) - £345.00

9. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: Cartrefi Conwy – Grantiau Cist Cymunedol:**
  Noder er gwybodaeth

- **E-Bost: CBSC – Cyllid ar gyfer Prosiectau Cymunedol ac Addysg Wledig (TU):**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Llywodraeth Cymru - Lansio ymgynghoriad 28 Mehefin 2021 - ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Clercod yng Nghymru:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Betsi Cadwaladr - Arolwg Gofal Lliniarol a Diwedd Oes:**
  Noder er gwybodaeth.

10. **UNRHYW FATER ARALL**

- Clawdd angen ei dorri rhwng Bodnod ac adeilad newydd Bodnant.
- Cylchgrawn y Pentref. Gofynnodd Cyng Ceri a fuasai'r cyngor yn gwneud rhodd tuag ar y cylchgrawn. Cyng Austin yn cynnig £50.00. Cyng Geraint yn eilio. Holl Gynghorwyr yn cytuno.
- Bin gwastraff ychwanegol ei angen wrth y bwrdd picnic. Os gallwn gael dim on un gofyn iddynt ei adleoli.
- Tyllau ar Ffordd Maenan wrth Ty Rhiw.
- Tyllau yn y Ffordd wrth Ty Gwyn.
- Llwybyr Pennant – Cyng Austin wedi cysylltu efo CBSC - gobeithio ei agor erbyn yr Hydref.
- Llwybyr Bryn Gwynt Pen Bryn Isa – Cyng Austin ddim yn rhaglweld y bydd canlyniad o fewn y misoedd nesaf. Cyng Austin wedi trefnu i gael cyfarfod gyda swyddog mapiau CBSC cyn ei gerdded a gweld sut ydym yn symud ymlaen. Dim Swyddog Llwybrau wedi ei benodi gyda CBSC ers 2 flynedd.
- Coed yn hongian dros y ffordd rhwng groesffordd Topan Bach a Ty'n Twll.
- Cyng John Emlyn wedi cysylltu efo BT ynglyn a'r band eang cyflym – llinell newydd wedi ei gosod yn y neuadd. Blwyddyn o rhent am ddim a wedyn fyny i'r Cyngor benderfynu be i wneud wedyn. Angen ei roi ar praesept blwyddyn nesaf.

11. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

07/09/21
05/10/21
02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 9.09 o'r gloch.